WLAF 30

FFORWM MYNEDIAD LLEOL WRECSAM

COFNODION WEDI'U CADARNHAU

O'r unfed cyfarfod ar ddeg ar hunain o'r fforwm a gynhaliwyd yn Neuadd Pentref Owrtyn, Owrtyn, Wrecsam, ddydd Iau 7 Awst 2008

25/08 PRESENOLDEB AC YMDDIHEURIADAU

Presenoldeb:

CADEIRYDD DROS DRO	YSGRIFENNYDD
Mabyn Pickering	Emma Haldane

AELODAU	Y RHEINY NAD YDYNT YN AELODAU
John Cooper-Poole	Sean Hanratty (CBSW)
Sue Gittins	Alek Coulson
John Marchant (CBSW)	Alun Price (CCGC),
Shelagh Roberts	Tim Stratton (marchogwr)
Gerald Moss	Peter Cade (RECAP)
Edward Wardle	Janet Williams (BDS)
Karl Prakel	Ken Farrell (gweithiwr gwirfoddol dros lwybrau)

Ymddiheuriadau: Tim Rosselli, Margaret Murphy a Mavis McBride, Hefyd Martin Howorth, (nad yw'n aelod)

26/08 Materion yn codi o Gofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd 8 Mai 2008

15/08 Materion Trawsffiniol

Roedd Wrecsam yn awyddus i feithrin cysylltiadau agosach â Fforymau Mynediad Lleol eraill. Un argymhelliad a wnaed oedd uno gweithgorau a fyddai ond yn ymdrin â mater llwybrau traws-ffiniol rhwng Wrecsam a siroedd cyfagos eraill. Y teimlad oedd drwy wneud hyn y gellid hybu cydweithio agosach.

Roedd yr ysgrifennydd wedi ysgrifennu at ysgrifenyddion yn Fforymau Mynediad Lleol Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Powys a Swydd Caer ac roedd wedi cael ymateb cadarnhaol gan Swydd Caer, Powys a Sir Ddinbych:

- Swydd Caer – Mae Amy Rushton, sef Arweinydd y Tîm Datblygu Mynediad i Gefn Gwlad wedi cyflwyno cynnig i gydweithio gerbron Fforwm Mynediad Lleol Swydd Caer ac mae dau aelod wedi gwirfoddoli ar gyfer y Gweithgor Trawsffiniol.

- Roedd Powys wedi nodi bod ganddynt ddiddordeb mewn gweithio gyda'i gilydd ond byddai'n well ganddynt aros nes bod eu haelodau newydd yn eu swyddi yn dilyn ailbenodi aelodau yn ddiweddarach yn ystod y flwyddyn.

- Yn Sir Ddinbych mae dau aelod hefyd sydd wedi gwirfoddoli ar gyfer y Gweithgor.

CYTUNWYD: Cytunir ar ba gamau a gymerir yn ystod y cyfarfod nesaf ym mis Tachwedd

27/08 Adroddiad y Cadeirydd

Roedd yr ysgrifennydd wedi ysgrifennu at aelodau ym mis Gorffennaf i roi gwybod iddynt fod Clive Menzies wedi ymddiswyddo fel Cadeirydd oherwydd salwch.
Mewn llythyr a dderbyniwyd gan yr ysgrifennydd, roedd Clive yn teimlo na allai gyflawni ei ddyletswyddau mwyach yn unol â'r lefel a'r proffesiynoldeb yr oedd y Fforwm Mynediad Lleol yn ei haeddu yn ei dyb ef ac roedd am ddiolch yn gyhoeddus i'w gydweithwyr ar Fforwm Mynediad Lleol Wrecsam. Roedd yn teimlo mai eu cefnogaeth, symbyliad a'u hagwedd benderfynol hwy a oedd wedi golygu mai Fforwm Mynediad Lleol Wrecsam oedd un o'r Fforymau mwyaf effeithiol yn y wlad. Roedd hefyd am ddiolch i holl staff yr adran Hawliau Tramwy am eu gwaith caled mewn amgylchiadau a all fod yn anodd weithiau ac roedd yn gwerthfawrogi eu hymdrechion bob amser.

CAM GWEITHREDU: Ysgrifennydd i anfon llythyr diolch ar ran Fforwm Mynediad Lleol Wrecsam

Cyn cyfarfod y Fforwm roedd aelodau wedi cymryd rhan mewn taith gerdded dywysedig o amgylch Owrtyn gyda Ken Farrell, gweithiwr gwirfoddol dros lwybrau troed a Walley Wilton, ysgrifennydd gwirfoddolwyr dros Gymdeithas y Cerddwyr.
Diolchodd y cadeirydd i Ken a Walley am roi o'u hamser ac am eu caredigrwydd.

Roedd y cyngor wedi gweithio mewn partneriaeth â Ken am sawl blwyddyn ac mae ei waith caled wedi helpu i sicrhau bod rhwydwaith Owrtyn o lwybrau troed a llwybrau ceffylau cyhoeddus sy'n 40 milltir o hyd yn cyrraedd cynulleidfa ehangach.

Nododd Ken y byddai'n ymddeol o'i waith gwirfoddol maes o law a'i fod yn gobeithio y byddai trigolyn lleol arall yn cymryd ei le o ran gwaith i'r llwybrau troed.

CAM GWEITHREDU: Byddai'r ysgrifennydd yn ysgrifennu at Gyngor Cymuned Owrtyn i ofyn am awgrymiadau.

Shell Brook

Mae'r llwybr troed yn Shell Brook ger ei gydlifiad ag Afon Dyfrdwy wedi bod ychydig yn broblemus am gryn amser bellach gan fod y tir wedi symud yn dilyn llifogydd. Nid yw'r bont, sy'n rhan o Ffordd Maelor, wedi cael ei defnyddio ers diwedd 2007. Cafodd y llwybr ei ddargyfeirio dros dro i'r B5069, Owrtyn i Ffordd San Martin, gan y teimlwyd nad oedd y llwybr yn ddiogel i gerddwyr.

Roedd Gerald wedi derbyn llythyr gan Kevin Jones, Tîm Mynediad Cefn Gwlad yn Sir Amwythig, a nododd fod swyddogion o Sir Amwythig a Chyngor Wrecsam wedi ymgynghori â'i gilydd mewn ymgais i ddatrys y broblem barhaus. Nododd Mr

Jones ei fod yn fwriad i swyddog o Wrecsam drafod gyda pherchnogion y tir yn yr ardal mewn ymgais i ddargyfeirio'r llwybr troed (Ffordd Maelor) i leoliad gwahanol, lle y gellid gosod y bont mewn ffordd fwy diogel. Fodd bynnag trafodwyd llwybr gwahanol gyda'r bont yn aros yn yr un lleoliad ac nid yw'r broblem wedi'i datrys o hyd.
Roedd John yn teimlo bod hwn yn fater trawsffiniol ac y gallai corff allanol megis Fforwm Mynediad Lleol helpu i ddatrys y broblem o bosibl.
Nododd Edward y byddai'n holi ar ran Fforwm Mynediad Lleol Wrecsam.
CAM GWEITHREDU: Gerald i anfon gohebiaeth Shell Brook at Edward

28/08 Adroddiad yr Ysgrifennydd

- **Adroddiad Blynyddol**
  Anfonwyd copi drafft o adroddiad blynyddol 2007/2008 at aelodau i'w gymeradwyo ym mis Gorffennaf.
  CAM GWEITHREDU: Cytunwyd ar yr Adroddiad Blynyddol.
  Ysgrifennydd i wneud newidiadau terfynol a'u hanfon i CCGC

- **Aelodaeth â Fforwm Mynediad Lleol Wrecsam**
  Esboniodd yr ysgrifennydd y byddai'r ail dymor tair blynedd yn dod i ben ym mis Tachwedd ac y câi fforwm newydd ei benodi. Gwahoddir pob aelod presennol i ailymgeisio am aelodaeth â Fforwm Mynediad Lleol Wrecsam am dymor arall ac y cânt ffurflen gais maes o law.

- **Amserlen Cyfarfodydd 2009**
  Fel rhan o'r Strategaeth Gyfathrebu, cytunodd yr ysgrifennydd i drefnu amserlen cyfarfodydd 2009 i'w chyflwyno yn y cyfarfod nesaf ym mis Tachwedd.

29/08 Cynllun Gwella Hawliau Tramwy

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Martin Howorth. Dim byd penodol i'w nodi hyd yn hyn.

Roedd Sean Hanratty yn awyddus i edrych ar y posibilrwydd o greu/uwchraddio cysylltiadau newydd â llwybrau ceffylau. Cyfrifoldeb y fforwm oedd penderfynu pa gysylltiadau llwybr ceffylau a oedd eu hangen. Gofynnodd Janet Williams, Cymdeithas Gyrwyr Prydain yng ngogledd ddwyrain Cymru i ystyried darparu gyrwyr cerbydau ac y byddai'n siarad â Sean ar ôl y cyfarfod.
Nododd Sue Gittins fod Erddig bellach yn cyflwyno ac yn hyrwyddo digwyddiadau i yrwyr cerbydau, sydd wedi bod yn llwyddiannus iawn o ran denu gyrwyr o bob cwr o'r ardal.

Mynegwyd pryderon am fynediad diogel i lwybrau ceffylau. Dywedodd Tim Stratton y byddai'n nodi'r problemau y daethpwyd o hyd iddynt ac yn cyflwyno eu canfyddiadau i naill ai John neu ei ysgrifennydd.
Teimlai John y gallai cynrychiolydd o'r adran briffyrdd fod yn ddefnyddiol mewn cyfarfod yn y dyfodol o ran helpu i nodi problemau ac i leisio pryderon aelodau.

CAM GWEITHREDU: John i wahodd cynrychiolydd o'r adran briffyrdd i gyfarfod yn y dyfodol
Ysgrifennydd i'w nodi ar gyfer agenda yn y dyfodol

30/08 Adroddiad gan Geidwaid Mynediad

Cyflwynodd John Marchant adroddiad gan y ceidwaid Dave Smith a Siôn Roberts ac Alison Whitley o'r gwaith sy'n mynd rhagddo yn y Sir ar hyn o bryd.

Dywedodd Siôn Roberts iddo fod yn gweithio ar drefnu sawl tasg sydd angen ei gwneud o ganlyniad i dderbyn arian ychwanegol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i roi'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy ar waith.

- Gosodwyd llwybr troed 10 metr o hyd ar lwybr 12 yn y Mwynglawdd ynghyd â dwy bont werdd alfanedig ar lwybr troed 17 yn Halghton. Byddai gan bontydd y llwybrau troed arwyneb haenen rwber sy'n addas ar gyfer ceffylau.

- Disgwyliwyd i lwybr troed galfanedig 9 metr o hyd gael ei osod ar lwybr 20 yn Llannerch Bana, ynghyd â llwybr troed 4 metr o hyd ger Dyfrbont Pontcysyllte. Nododd Siôn y byddai'r pontydd hyn yn atal fandaliaid rhag ymosod arnynt ac y byddai angen llai o waith cynnal a chadw arnynt na strwythurau blaenorol.

- Byddai Siôn yn tywys taith gerdded arall o amgylch Llanarmon ym mis Medi. Mae rhagor o fanylion am hyn ar gael yn y canllaw i Wasanaeth Parciau, Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy Cyhoeddus Wrecsam.

Nododd Dave fod arolwg Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau a gynhaliwyd yn ddiweddar am hanner y flwyddyn wedi rhoi cyfradd llwyddo o 58%, ond rhaid cofio nad yw hyn yn ystadegol gadarn. Er hynny, o'i chymharu â'r ail flwyddyn dylai fod yn nifer gweddol uchel sy'n dangos cynnydd cadarn.

- Nododd fod yr holl waith sydd ei angen wedi'i nodi ar gyfer gwaith cynnal a chadw Clawdd Offa eleni. Dylai'r ffurflen gais am grant fod yn barod i'w chwblhau y mis nesaf.

- Ar hyn o bryd mae yn y camau olaf yn y broses o ailgynllunio'r templed ar gyfer baner yr arwyddbost ac mae'n paratoi i agor Llwybr Treftadaeth newydd sef – Ffordd Clawdd Wat – y caiff y seremoni agoriadol ei chynnal ym mis Hydref.

  Dywedodd Alison Whitely ei bod wedi cynnal arolwg o lwybrau Gwersyllt a'i bod yn gweithio gyda phobl leol i'w cynnwys yn y broses. Mae wedi darparu mapiau ar gyfer unigolion gan eu helpu gyda'u technegau arolygu lle y bo angen.

- Yn ddiweddar mae Alison wedi ysgrifennu at berchennog tir lleol lle y canfuwyd problemau gyda chamfeydd hynod gul a bydd yn gwneud yr un peth am unrhyw broblemau mawr eraill na ellir eu datrys fel rhan o'r prosiect.

- Mae Alison wedi bod yn gwneud gwaith dilynol am faterion yng Nghoedpoeth gyda pherchnogion tir, contractwyr a Groundwork Wrecsam a Sir y Fflint gan sicrhau bod gwaith yn cael ei gwblhau. Bydd yn sicrhau bod gwaith wedi'i wneud yng Nghoedpoeth dros yr wythnosau nesaf.

- Alison oedd yr arweinydd wrth gefn ar gyfer taith gerdded gylchol y Rhos ym mis Gorffennaf. Yn anffodus oherwydd y terfynau amser nid yw Alison wedi gallu ymdrin â chwynion ynghylch cnydau eleni

Dywedodd Clarlotte Fleet, fod gwaith ar ailgyhoeddi Ffordd Maelor ar y we yn mynd rhagddo a bod y rhan fwyaf o'r arolwg pum mlynedd wedi'i gwblhau.

31/08 Cyngor Cefn Gwlad Cymru

Rhoddodd Alun Price, ei adroddiad diweddaraf i'r fforwm.
Nododd na dynnwyd ei sylw at unrhyw waharddiadau neu gyfyngiadau yn ardal Gogledd Cymru.

32/08 Unrhyw Fater Arall

- **Wardeniaid Coed**
  Roedd Peter Cade, RECAP (Rhaglen Gweithredu Cymunedol Amgylcheddol Yr Orsedd) am ddod o hyd i wirfoddolwyr i helpu i greu Cynllun i Wardeniaid Coed yn y Fwrdeistref Sirol. Byddai wardeniaid gwirfoddol yn cael y cyfle i gyfrannu at brosiectau penodol megis plannu, gofalu a diogelu coed ac i helpu i gasglu gwybodaeth yn yr ardal leol. Gofynnodd i unrhyw bartïon â diddordeb gysylltu â'r ysgrifennydd ac y byddai'n anfon eu manylion ymlaen.
- **Llwybr ger Gorsaf Legacy**
  Diolchodd y Cadeirydd i Clive Menzies am yr amser a'r ymdrech yr oedd wedi'u rhoi i Legacy. Byddai'n cyfarfod â'r cyngor cymuned lleol ym mis Medi i drafod hyn ymhellach.

33/08 Eitemau ar gyfer yr Agenda Nesaf

- Gweithgor Trawsffiniol
- Mynediad mwy Diogel i Lwybrau Ceffylau

34/08 Dyddiad a Lleoliad y Cyfarfod Nesaf

Ddydd Gwener, 14 Tachwedd 2008 am 2.00pm yn Neuadd y Dref